# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Gwneud newidiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith a'u dirymu*

### 90 Pŵer i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy newid gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth y caniateir ei gwneud o dan adran 63, yn ddarostyngedig i'r adran hon.

(3) Caniateir arfer y pŵer a roddir gan is-adran (1) ar gais a wneir gan y canlynol—

- (a) y ceisydd neu olynydd yn nheitl y ceisydd;
- (b) person a chanddo fuddiant yn y tir;
- (c) unrhyw berson arall y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd.

(4) Caniateir arfer y pŵer i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith a roddir gan is-adran (1) yn sgil cais a wneir gan awdurdod cynllunio os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

- (a) bod y gorchymyn cydsyniad seilwaith yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad ar dir y mae'r cyfan ohono neu ran ohono yn ardal yr awdurdod cynllunio,
- (b) bod y datblygiad wedi ei ddechrau ond wedi ei adael, ac
- (c) bod cyflwr y tir yn cael effaith andwyol ar amwynder tir arall yn ardal yr awdurdod cynllunio neu mewn ardal gydffiniol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod arfer y pŵer ar gais a wneir o dan is-adran (3) neu (4) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, yn benodol, y dylai'r datblygiad a

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

fyddai'n cael ei awdurdodi o ganlyniad i'r newid fod, yn briodol, yn destun cais o dan adran 32 am gydsyniad seilwaith.

(6) Caniateir i'r pŵer a roddir gan is-adran (1) gael ei arfer gan Weinidogion Cymru heb i gais gael ei wneud o dan is-adran (3) neu (4).

(7) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (1) yn cynnwys pŵer i—

(a) ei gwneud yn ofynnol i symud ymaith neu addasu gwaith adeiladu;

(b) ei gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i ddefnydd o dir;

(c) gosod gofynion penodedig mewn cysylltiad â pharhau â defnydd o dir;

(d) gosod gofynion newydd mewn cysylltiad â'r datblygiad y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn rhoi cydsyniad ar ei gyfer;

(e) dileu neu amrywio gofynion presennol;

(f) gwneud darpariaeth newydd yn ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu faterion sy'n atodol i hynny;

(g) dileu neu amrywio darpariaeth bresennol o'r math hwnnw.

(8) Yn ddarostyngedig i is-adran (7)(a), nid yw arfer y pŵer yn effeithio ar unrhyw waith adeiladu na gweithrediadau eraill a gynhaliwyd yn unol â'r gorchymyn cydsyniad seilwaith cyn i'r pŵer gael ei arfer.

(9) Ni chaniateir i'r pŵer a roddir gan is-adran (1) gael ei arfer mewn perthynas â darpariaeth a gynhwysir mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith yn rhinwedd paragraff 24 neu 25 o Atodlen 1 (trwydded forol dybiedig o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)).